

Ydych chi'n cael trafferthion wrth ddarllen y cylchlythyr hwn? [Edrychwch arno yn eich porwr.](#)

# Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

### Adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar weinyddu etholiadau Senedd Ewrop Mai 2019

Gwybodaeth am adroddiad y Comisiwn a gyhoeddwyd ddydd Iau 8 Hydref a dolen i'r adroddiad.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#). Gallwch hefyd [danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol](#).

Cofiwch [roi gwybod i ni](#) am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio [gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk).

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r

# bwletin gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 250 (Cymru) – 8 Hydref 2019

## Adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau Mai 2019

Heddiw, mae'r Comisiwn Etholiadol wedi [cyhoeddi adroddiad](#) ar yr etholiadau llywodraeth leol a Senedd Ewrop a gynhaliwyd ym mis Mai 2019.

Mae ein hymchwil gyda'r cyhoedd yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl yn hyderus bod etholiadau mis Mai 2019 wedi cael eu cynnal yn dda, ac roedd y rhan fwyaf o'r pleidleiswyr yn fodlon ar y broses pleidleisio. Ond roedd lefelau hyder cyffredinol ynghylch etholiadau Senedd Ewrop ac etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr yn is nag mewn etholiadau diweddar eraill, yn dilyn pryderon am broblemau a gafodd pleidleiswyr.

Mae ein hadroddiad yn nodi dau fater allweddol a gafodd effaith andwyol ar bleidleiswyr: yr anawsterau a gafodd rhai o ddinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU a oedd am bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop yn y DU; a'r anawsterau a gafodd etholwyr tramor o Brydain nad oeddent yn gallu dychwelyd pleidleisiau post mewn pryd i'w cyfrif.

Gwnaethom edrych ar y broses gofrestru ar gyfer dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU, a'r hyn a ddigwyddodd cyn y diwrnod pleidleisio ym mis Mai 2019 er mwyn galluogi dinasyddion yr UE i gofrestru i bleidleisio a phleidleisio yn y DU. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn yr [adroddiad ar ymchwiliad y Comisiwn](#).

Nid yw nifer o'r materion rydym yn tynnu sylw atynt yn ein hadroddiad yn newydd, ac rydym wedi dweud ers cryn dipyn o amser fod methiant llywodraethau a seneddau i gynnal a diweddarau cyfraith etholiadol yn gywir, ac i fynd i'r afael â'r pwysau sydd ar awdurdodau lleol, wedi datblygu risgiau sylweddol ar gyfer etholiadau a gaiff eu cynnal yn dda.

Mae etholiadau mis Mai 2019 yn dangos bod y gyfraith etholiadol yn gynyddol gymhleth a hen ffasïwn, ac yn cyflwyno risgiau

gwirioneddol i bleidleiswyr, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr, a gweinyddwyr etholiadol.

Rydym am weld cynnydd gan Lywodraeth y DU tuag at weithredu argymhellion a wnaed gennym ni ac eraill, gan gynnwys:

- Cyflwyno ffyrdd newydd o wella mynediad i'r broses bleidleisio i bleidleiswyr dramor, fel sydd wedi'i wneud yn hawdd ac yn llwyddiannus mewn democratiaethau tebyg eraill.
- Sicrhau bod eglurder ynghylch y fframwaith cyfreithiol ar gyfer etholiadau o leiaf chwe mis cyn bod angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol (SCEau) a Swyddogion Canlyniadau (SCau) gyflawni prosesau statudol.
- Er y bydd angen i SCau a SCEau fod yn barod i ymateb i ddatblygiadau gwleidyddol annisgwyl bob amser, dylai llywodraethau hefyd sicrhau bod eu penderfyniadau'n cefnogi'r gwaith cynllunio wrth gefn effeithiol.

O ystyried hyn i gyd, mae'n glod enfawr i'r SCau a staff etholiadol eraill ledled y wlad eu bod wedi cyflawni'r hyn a wnaethant o dan yr amgylchiadau: etholiadau a gynhaliwyd yn ddi-drafferth ar y cyfan yn wyneb heriau sylweddol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r gymuned etholiadol i ystyried beth arall y gellir ei wneud o fewn y fframwaith presennol i fynd i'r afael â'r heriau o ran cadernid a gallu mewn gwasanaethau etholiadol lleol.

### **Ein hadroddiad ar ddeisebau adalw a gynhaliwyd yn Peterborough, Brycheiniog a Sir Faesyfed**

Ddydd lau 10 Hydref, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad ar y deisebau adalw a gynhaliwyd yn Peterborough, Brycheiniog a Sir Faesyfed. Byddwn yn darparu crynodeb o'n canfyddiadau a dolen i'r adroddiad ym Mwletin yr wythnos nesaf.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru  
Tŷ'r Cwmniau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ  
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500  
[infowales@electoralcommission.org.uk](mailto:infowales@electoralcommission.org.uk)

[www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk)

© Y Comisiwn Etholiadol 2019

Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data'r DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd>)

Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch [ddatdanysgrifio](#) ar unrhyw adeg.